# Manyleb y Diploma Mynediad i Addysg Uwch

## Dogfen Reoleiddiol: Y gofynion i Asiantaethau Dilysu Mynediad i AU

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2023

Wedi'i ddiwygio: Gorffennaf 2025

# Cynnwys


Cyflwyniad....1

Nodweddion y cymhwyster....2

- Nodweddion y Diploma....2
- Teitlau Diplomâu penodol....2

Manyleb y cyflawniad sy'n ofynnol i ennill y Diploma Mynediad i AU....3

Y gofynion ychwanegol ar gyfer ennill Diploma Mynediad i AU penodol....3

Diplomâu ac unedau....3

- Manylebau uned....3
- Unedau a ddynodir yn rhai sydd â chynnwys pwnc academaidd....5
- Unedau graddedig neu anraddedig....5

Rheolau cyfuno....7

Meini prawf eraill i ddiffinio cwblhad llwyddiannus....8

Casglu credydau....8

- Credydau ac unedau....8
- Dyfarnu credyd a graddio....8
- Credyd a lefel....9
- Casglu credydau....9
- Trosglwyddo credydau....9
- Cydnabod dysgu blaenorol....10

Cydnabod cyflawniad myfyrwyr....10

- Dyfarnu'r Diploma....11

Datblygu Diplomâu Mynediad i AU....11

Atodiad A: Y gofynion o ran ystyried y rheolau cyfuno wrth lunio Diploma penodol....12

# Cyflwyniad

1 Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch ('QAA') yw'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch ('Mynediad i AU'), ac mae ei nodau elusennol yn cynnwys y cyfrifoldeb am roi cyngor i'r llywodraethau ynglŷn â'r gydnabyddiaeth a roddir i gyrsiau Mynediad i AU. Mae QAA hefyd yn cofrestru ac yn cynnal nodau masnach y cymhwyster. I gynnal a chadw'r dulliau a ddefnyddir gan y llywodraethau i gydnabod y Diploma at ddiben cyllido, mae QAA yn gweithredu ei Chynllun Cydnabod ar gyfer Mynediad i AU (y 'Cynllun Cydnabod'). Mae'r term 'Cynllun Cydnabod' yn cyfeirio at drefniadau QAA ar gyfer cyflawni ei chyfrifoldebau mewn perthynas â'r Diploma. Mae hefyd yn cynnwys fframwaith o ofynion sydd wedi eu nodi mewn dogfennau penodol a ddefnyddir gan QAA i ddyfarnu trwydded (y 'Drwydded') i Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaethau DMiAU') sy'n caniatáu iddynt ddatblygu, dilysu a chymeradwyo cyrsiau Mynediad i AU a dyfarnu Diplomâu.

2. Bydd QAA yn dyfarnu Trwydded i Asiantaeth DMiAU, ac yn caniatáu iddi ei chadw at y dibenion hyn, ar yr amod ei bod yn cytuno i lynu at ofynion QAA mewn perthynas â'r Diploma, fel y maen nhw wedi eu nodi yn y dogfennau a ganlyn:

2.1 **Y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch** (y 'Telerau') sy'n nodi'r telerau y mae'n rhaid i ddarpar Asiantaeth DMiAU gytuno iddynt er mwyn dod yn Asiantaeth DMiAU a chadw ei Thrwydded.

2.2 **Yr Amodau Mynediad i AU** (yr 'Amodau'), sef y goblygiadau y mae'n rhaid i ddarpar Asiantaeth DMiAU eu cyflawni (neu ddangos ei bod yn gallu eu cyflawni) er mwyn dod yn Asiantaeth DMiAU a pharhau i gadw ei Thrwydded.

3. Mae'r Telerau Safonol a'r Amodau'n esbonio'n glir beth yw'r gofynion a'r disgwyliadau, yn ogystal â threfniadau eraill sydd wedi eu nodi mewn dogfennau eraill o fewn y Cynllun Cydnabod. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau trwyddedu a monitro, y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU, Manyleb y Diploma Mynediad i AU a'r Disgrifyddion Pwnc. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ychwanegol y gallai QAA eu cyflwyno sy'n nodi gwybodaeth bellach am y dull y gallai QAA ei ddefnyddio i asesu cydymffurfiad ag amod penodol, neu i helpu Asiantaethau DMiAU i ddehongli'r gofynion.

4. Y ddogfen hon, *Manyleb y Diploma Mynediad i AU*, yw un o ddogfennau rheoleiddiol y Cynllun Cydnabod sy'n nodi manylebau technegol y Diploma Mynediad i AU (y 'Diploma') a'r gofynion sylfaenol o ran cyflawniad y myfyrwyr. Nod y manylebau hyn yw sicrhau bod her academaidd a safonau'r Diploma Mynediad i AU yn gyson ac eglur, a bod cydraddoldeb i fyfyrwyr yn y ffordd y gellir ei gyflawni. Fel y mae wedi ei nodi yn Amod D1.1 yr Amodau Mynediad i AU (yr 'Amodau'), mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod cynnwys a strwythur pob cwrs Diploma Mynediad i AU yn bodloni'r gofynion sydd wedi eu nodi yn y ddogfen hon.

## Nodweddion y cymhwyster

### Nodweddion y Diploma

5. Mae'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch:

5.1. yn gymhwyster wedi'i seilio ar nifer o unedau asesu sydd wedi eu strwythuro yn unol â manyleb yr uned Mynediad i AU

5.2. yn gymhwyster wedi'i seilio ar gredydau, lle mae gan bob uned werth o 3, 6 neu 9 credyd, ac y gweithredir yr uned yn unol â thelerau'r fanyleb credydau ar gyfer Mynediad i AU

5.3. yn gymhwyster graddedig, fel y mae wedi ei bennu gan y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU, ac

5.4. yn gymhwyster lefel 3 (wedi'i alinio â Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig Lloegr), a reoleiddir gan QAA.

### Teitlau Diplomâu penodol

6. Teitl generig y cymhwyster yw 'Diploma Mynediad i Addysg Uwch'. Cyfeirir at Ddiplomâu unigol penodol drwy nodi teitl y dyfarniad sy'n dangos pwnc academaidd neu faes astudio'r dyfarniad ac a allai hefyd ddynodi beth yw'r llwybr cynnydd arfaethedig.

7. Mae'n rhaid i deitlau Diplomâu penodol unigol ddilyn y fformat a ganlyn:

7.1. Diploma Mynediad i Addysg Uwch (enw'r pwnc/maes astudio/llwybr cynnydd)

7.2. er enghraifft, Diploma Mynediad i Addysg Uwch (Astudiaethau Busnes); Diploma Mynediad i Addysg Uwch (Iechyd a Gofal Cymdeithasol); Diploma Mynediad i Addysg Uwch (Nyrsio); neu Ddiploma Mynediad i Addysg Uwch (Celf a Dylunio).

8. Os bwriedir i'r Diploma ddarparu llwybrau cynnydd cyfunol neu lai penodol, rhaid i'r enw adlewyrchu hyn, drwy nodi'r maes/meysydd astudio penodol gan gyfeirio at unrhyw rai o'r prif grwpiau pwnc (h.y. y celfyddydau, y dyniaethau, y gwyddorau, y gwyddorau cymdeithasol):

8.1. naill ai'n unigol, er enghraifft, Diploma Mynediad i Addysg Uwch (y Gwyddorau Cyfunol)

8.2. neu mewn unrhyw gyfuniad, er enghraifft, Diploma Mynediad i Addysg Uwch (Astudiaethau Cymdeithasol a'r Celfyddydau), neu

8.3. drwy gyfeirio at bynciau penodol sy'n rhan o unrhyw rai o'r grwpiau hyn, er enghraifft, Diploma Mynediad i Addysg Uwch (Hanes a'r Gyfraith).

9. Rhaid defnyddio'r fformat cyffredin ar gyfer teitl y Diploma penodol ar y dystysgrif o gyflawniad a gyflwynir i bob myfyriwr ac sy'n dangos logo 'Mynediad i AU' QAA. Rhaid hefyd ddefnyddio'r fformat hwn ymhob cyfathrebiad ffurfiol sy'n ymwneud â Diploma penodol, gan gynnwys unrhyw wybodaeth a roddir i'r darparwyr addysg uwch sy'n derbyn y myfyrwyr (gan gynnwys mewn ceisiadau drwy UCAS) am y Diploma penodol y mae'r myfyrwyr wedi eu cofrestru ar ei gyfer.

10. Ni chaiff teitlau Diplomâu Mynediad i AU gynnwys y llythrennau arbennig a ganlyn: hanner colon (;), colon (:), ac ampersand (&).

11. Cymeradwyir teitlau'r dyfarniadau drwy brosesau dilysu'r Asiantaeth DMiAU, fel un o'r elfennau mewn Diploma penodol.

## Manyleb y cyflawniad sy'n ofynnol i ennill y Diploma Mynediad i AU

12. Dyma'r gofynion generig ar gyfer ennill y Diploma Mynediad i AU:

12.1. o'r cyfanswm o 60 credyd, mae'n rhaid cyflawni 45 credyd o unedau graddedig ar lefel 3 sy'n ymwneud â chynnwys pwnc academaidd (gwelwch yr adran 'Diplomâu ac unedau');

12.2. rhaid cyflawni'r 15 credyd sy'n weddill ar lefel 2 neu 3 o unedau nad ydynt yn cael eu graddio (gwelwch yr adran 'Diplomâu ac unedau')

12.3. rhaid cyflawni o leiaf un uned sydd â naill ai 6 neu 9 credyd (graddedig neu anraddedig) ar raglen astudio'r myfyriwr; uchafswm y nifer o gredydau y gellir eu hennill o unedau o 6 neu 9 credyd yw 30.

## Y gofynion ychwanegol ar gyfer ennill Diploma Mynediad i AU penodol

13. Mae'n rhaid i'r rheolau cyfuno (gwelwch isod) nodi'r gofynion penodol ar gyfer ennill Diploma penodol, gan gynnwys y ffaith bod yn rhaid i'r gyfres gyflawn o unedau fod ar gael i'r myfyrwyr (gwelwch yr adran 'Diplomâu ac unedau'), yn ogystal â gwybodaeth i esbonio sut y mae'n rhaid i'r rhain, neu y gallai'r rhain, gael eu cyfuno. Mae'n rhaid i'r gyfres o unedau sydd i gael eu defnyddio, a'r rheolau cyfuno sy'n berthnasol i bob Diploma penodol, gael eu cymeradwyo gan Asiantaeth DMiAU.

## Diplomâu ac unedau

14. Dylid llunio pob Diploma o gyfres o unedau sydd wedi eu cymeradwyo gan yr Asiantaeth DMiAU ar gyfer y Diploma hwnnw. Rhaid aseinio gwerth credyd penodol a lefel benodol i bob Diploma (gwelwch yr adran 'Casglu credydau').

### Manylebau uned

#### Diffiniadau

Mae '**deilliannau dysgu**' yn golygu datganiad o'r hyn y disgwylir yn rhesymol i fyfyriwr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei wneud ar ôl cwblhau proses o ddysgu. Mynegir deilliannau dysgu mewn geiriad safonol penodedig.

Mae '**meini prawf asesu**' yn golygu disgrifiadau o'r gofynion y disgwylir i fyfyriwr eu bodloni er mwyn dangos ei fod wedi cyflawni deilliant dysgu penodol.

15. Mae manyleb gyffredin ar gyfer unedau'n berthnasol i bob uned sy'n atebol i'r fframwaith credydau Mynediad i AU. Mae'n rhaid i fanyleb yr uned roi'r wybodaeth a ganlyn ar dempled safonol (gwelwch yr esiampl yn nhabl 1 ar dudalen 4):

- teitl yr uned
- lefel yr uned
- gwerth credyd yr uned
- cod yr uned
- y deilliannau dysgu
- y meini prawf asesu
- a yw'r uned yn raddedig neu'n anraddedig
- math yr uned (cynnwys maes astudio academaidd penodol neu gynnwys arall)

16. Mae'r templed ar gyfer unedau'n berthnasol i fanyleb yr uned yn unig. Dylid cyflwyno gwybodaeth ehangach am gynnwys y cwricwlwm a'r dulliau asesu ar gyfer dilysu a chymeradwyo cyrsiau a Diplomâu Mynediad i AU penodol.

17. Pennir lefel yr uned drwy gyfeirio at y disgrifyddion lefel. Rhagnodir lefel y credyd a ddyfernir i'r myfyriwr am gyflawni'r uned drwy lefel yr uned, ac ni cheir dyfarnu credyd ar unrhyw lefel arall. Gallai safon y perfformiad unigol effeithio ar y radd a ddyfernir, neu gall benderfynu a gyflawnwyd yr uned ai peidio; nid yw'n effeithio ar y lefel y dyfernir credyd arni.

**Tabl 1: Manyleb uned enghreifftiol**

<table>
<tr><td colspan="2">Teitl yr uned<br>Lefel yr uned<br>Gwerth credyd yr uned (3, 6 neu 9)<br>Cod yr uned<br>Graddedig/anraddedig<br>Math yr uned: cynnwys maes astudio academaidd penodol neu gynnwys arall</td></tr>
<tr><td>Y deilliannau dysgu</td><td>Y meini prawf asesu</td></tr>
<tr><td>Dylai'r myfyrwyr allu:</td><td>Mae'r myfyrwyr yn gallu:</td></tr>
<tr><td>1</td><td>1.1<br>1.2<br>1.3</td></tr>
<tr><td>2</td><td>2.1<br>2.2<br>2.3</td></tr>
<tr><td>3</td><td>3.1<br>3.2<br>3.3<br>3.4</td></tr>
</table>

18. Fel y mae wedi ei nodi ym mharagraff 15, un o'r gofyniadau gorfodol yw'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ym manyleb yr uned. Ond, mae'r templed uchod yn enghreifftiol yn unig. Yn arbennig, mae'r nifer o ddeilliannau dysgu a meini prawf asesu'n enghreifftiol yn unig. Dylid penderfynu ar y nifer o ddeilliannau dysgu a meini prawf asesu a ddefnyddir ar gyfer uned benodol yn ôl natur a chymhlethdod y perfformiad a ddisgrifir; gallant hefyd gael eu heffeithio gan werth credyd a lefel yr uned. Ond, er nad yw hi'n briodol bod yn rhagnodol, mae arferion da'n dangos nad yw nifer fechan o ddeilliannau dysgu (un neu ddau yn unig) yn darparu digon o fanylder i osod safon yn sail i asesiadau dilys a dibynadwy (hyd yn oed os oes nifer fawr o feini prawf asesu), a gallai nifer o ddeilliannau dysgu fod yn arwydd o or-fanylebu a diffyg hyblygrwydd o'r herwydd yn y gofynion asesu.

## Unedau a ddynodir yn rhai sydd â chynnwys pwnc academaidd

19. Er mwyn i uned gael ei hystyried yn un sydd â chynnwys pwnc academaidd, mae'n rhaid iddi fodloni'r meini prawf a ganlyn:

19.1. Mae'n rhaid i gynnwys yr uned, fel y mae wedi ei fynegi yn ei deilliannau dysgu, gael ei dynnu o wybodaeth a sgiliau meysydd astudio sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phwnc/pynciau'r Diploma/Diplomâu penodol y defnyddir yr uned ynddo/ynddynt, fel y mae teitl y Diploma'n ei ddangos. Mae hyn yn berthnasol i'r ystod lawn o feysydd astudio Diploma, gan gynnwys pynciau sy'n ymwneud â thechnoleg megis Astudiaethau Amlgyfrwng, yn ogystal â phynciau megis Hanes neu Gymdeithaseg. Gallai'r uned gynnwys sgiliau sy'n ymwneud â mathau a meysydd penodol o wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer Diploma penodol arbennig (megis Mathemateg ar gyfer peirianwyr, neu sgiliau mewn gwaith labordy ar gyfer myfyrwyr gwyddoniaeth). Ni fydd uned yn bodloni'r gofyniad o ran cynnwys pwnc academaidd os bydd yn ymwneud yn bennaf â datblygiad personol, sgiliau generig mewn Cymraeg/Saesneg neu Fathemateg, neu sgiliau astudio.

19.2. Os bydd yr uned yn gofyn i'r myfyriwr ddewis pwnc ar gyfer darn o waith a asesir, mae'n rhaid i'r pwnc hwn fod wedi ei leoli o fewn maes gwybodaeth sy'n berthnasol i faes/meysydd astudio'r Diploma penodol a chael ei gymeradwyo gan diwtor sy'n arbenigwr yn y maes astudio penodol.

19.3. Mae'n rhaid i waith y myfyriwr ar gyfer yr uned gael ei gefnogi a'i asesu gan diwtor sy'n arbenigwr ym mhwnc yr uned.

Yn ogystal, ar gyfer uned neu gyfres o unedau sy'n ymwneud â darn mawr o waith, megis prosiect ymchwil (er enghraifft, un uned o 6 neu 9 credyd, neu ddwy neu dair uned o 3 chredyd sy'n rhan o gyfres o unedau sydd, ar y cyd, yn ymdrin â phob cam o brosiect ymchwil), rhaid hefyd fodloni'r meini prawf a ganlyn:

- Mae'n rhaid i'r deilliannau dysgu ymwneud yn uniongyrchol â'r galluoedd i ddangos a defnyddio'r sgiliau academaidd gofynnol (megis sgiliau ymchwilio) ac ymgysylltiad y myfyrwyr gyda, a'u meistrolaeth o, agweddau perthnasol y maes gwybodaeth a chonfensiynau'r pwnc academaidd y mae'r gwaith yn perthyn iddo.
- Rhaid gwneud pob gwaith a asesir ar gyfer yr uned yn unswydd i gyflawni'r uned honno neu'r gyfres honno o unedau (h.y. ni cheir 'croesgyfeirio' rhwng y gwaith hwn ac unrhyw waith arall a gyflwynir ar gyfer asesu uned arall).

## Unedau graddedig neu anraddedig

20. Mae'r broses raddio'n gweithredu ar lefel yr uned ac yn cael ei defnyddio dim ond ar gyfer yr unedau hynny a gymeradwyir gan Asiantaeth DMiAU i'w graddio o fewn Diploma penodol.

21. Pan fydd myfyriwr yn cyflawni'r unedau sy'n cyfrif am y 45 credyd sy'n deillio o unedau graddedig, bydd hyn yn cael ei gofnodi ar lefelau 'pasio', 'teilyngdod' neu 'ragoriaeth' ar gyfer pob uned, yn unol â gofynion y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU. Ni cheir defnyddio unrhyw drefn wahaniaethu arall ar gyfer cyflawniad myfyrwyr.

22. Mae'n rhaid i bob Diploma penodol gynnwys 45 credyd sy'n deillio o unedau graddedig ar lefel 3. Mae'r 15 credyd sy'n weddill yn deillio o unedau anraddedig ar lefel 2 neu 3.

23. Rhaid i unedau ar lefel 3 nad ydynt yn cael eu graddio gael eu nodi'n glir fel unedau o'r fath yn y dogfennau dilysu a'r rheolau cyfuno ar gyfer Diplomâu penodol. Ni chaiff yr unedau

hyn eu graddio o dan unrhyw amgylchiadau pan gânt eu defnyddio o fewn manyleb Diploma penodol sydd wedi eu cynnwys nhw fel unedau anraddedig.

24. Mae'n rhaid i unedau graddedig ar lefel 3 fodloni'r meini prawf ar gyfer unedau sydd â chynnwys sy'n ymwneud â phwnc academaidd (gwelwch uchod). Gallai unedau anraddedig ar lefel 3 ymwneud â chynnwys pwnc academaidd hefyd.

25. Mae angen cael cymeradwyaeth gan Asiantaeth DMiAU i ddynodi unedau'n rhai graddedig neu anraddedig er mwyn eu defnyddio mewn Diploma penodol. Os bydd cynnwys cyffelyb yn rhan ofynnol o uned raddedig mewn un Diploma ac uned anraddedig mewn un arall, mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU gymeradwyo pob uned ar wahân, ynghyd â'i manyleb briodol ei hun (mae hyn yn golygu y bydd yr uned raddedig yn cynnwys gwybodaeth am raddio) at y diben hwn.

## Rheolau cyfuno

26. Rhaid i'r ffyrdd y ceir cyfuno unedau, neu y mae'n rhaid cyfuno unedau, er mwyn cyflawni Diploma penodol, gael eu nodi yn y rheolau cyfuno ar gyfer y Diploma hwnnw. Dylid cyflwyno rheolau cyfuno yn unol â fformat safonol. Mae Atodiad A yn nodi'r wybodaeth ofynnol.

27. Er bod y fanyleb hon yn nodi, ar lefel generig, yr isafswm nifer (yn nhermau gwerth credyd) o fathau penodol o gynnwys y mae'n rhaid eu cynnwys mewn unrhyw Ddiploma, mae manylion cynnwys y Diploma penodol yn rhan o'r gyfres o unedau a gymeradwyir gan Asiantaeth DMiAU ar gyfer y Diploma hwnnw. Mae'r rheolau cyfuno ar gyfer y Diploma hwnnw'n diffinio sut y defnyddir yr unedau hyn mewn perthynas â'i gilydd.

28. Mae'n rhaid i bob Diploma gynnwys 15 credyd sy'n deillio o unedau anraddedig ar naill ai lefel 2 neu ar lefel 3. Dylai'r penderfyniad ynglŷn â nifer y credydau y mae'n rhaid eu cyflawni ar y naill neu'r llall o'r lefelau hyn er mwyn sicrhau'r 15 credyd hyn o fewn Diploma penodol gael ei hysbysu gan ofynion y llwybr(au) cynnydd arfaethedig ar gyfer y Diploma hwnnw.

29. Mae rheolau cyfuno'n elfen hanfodol o bob Diploma Mynediad i AU. Maent yn gweithredu ar lefel gofynion a chyflawniadau myfyrwyr. Mae'n rhaid iddynt enwi pob uned a fydd ar gael i bob myfyriwr sy'n astudio ar gyfer Diploma penodol. I ennill y Diploma, mae'n rhaid i bob myfyriwr gyflawni'r canlynol:

29.1. yr unedau hynny a ddynodir yn rhai gorfodol, ac

29.2. yr unedau hynny a ddewisir ganddynt o'r unedau a ddynodir yn rhai opsiynol.

30. Mae pob Diploma'n cynnwys unedau gorfodol, ac mae'n bosib y byddent yn cynnwys unedau opsiynol hefyd. Mae'n rhaid i unrhyw ddewisiadau sydd ar gael i'r myfyrwyr yn ôl rheolau cyfuno pob Diploma penodol fod yn ddewisiadau a fydd yn sicrhau bod cyfle i bob myfyriwr gyflawni'r gofyniad generig o 45 credyd sy'n deillio o unedau graddedig lefel 3 sy'n ymwneud â chynnwys pwnc academaidd. Mae'n rhaid i unrhyw ddewisiadau sydd ar gael i'r myfyrwyr yn ôl rheolau cyfuno pob Diploma penodol fod yn ddewisiadau a fydd yn sicrhau bod pob myfyriwr yn deall yn glir bod angen astudio o leiaf un uned o 6 neu 9 credyd a'r uchafswm o 30 credyd sy'n berthnasol i ddefnyddio unedau o 6 neu 9 credyd.

31. Mae'n rhaid i bob uned a restrir i'w defnyddio ar gyfer Diploma penodol gael eu dosbarthu ymhob un o'r ffyrdd a ganlyn at ddibenion y rheolau cyfuno ar gyfer y Diploma hwnnw:

31.1. lefel 2 **neu** 3

31.2. graddedig **neu** anraddedig

31.3. cynnwys maes astudio academaidd penodol **neu** gynnwys arall

31.4. gorfodol **neu** opsiynol

32. Mae'n rhaid i'r gyfres o unedau a'r rheolau cyfuno a gymeradwyir ar gyfer pob Diploma penodol gyfuno i greu sylfaen i raglen astudio gydlynol wedi'i strwythuro'n eglur i fyfyrwyr, gydag amrywiaeth a chydbwysedd yn y cynnwys sy'n sicrhau bod y myfyrwyr yn barod ar gyfer astudio'n llwyddiannus ym maes addysg uwch.

## Meini prawf eraill i ddiffinio cwblhad llwyddiannus

33. Os oes unrhyw ofynion eraill y mae'n rhaid eu hateb er mwyn cyflawni'r cymhwyster, rhaid nodi'r rhain ar wahân i'r rheolau cyfuno, mewn datganiad sy'n diffinio'r meini prawf ar gyfer cwblhad llwyddiannus. Gallai'r rhain gynnwys gofynion penodol sy'n ymwneud â rheoliadau asesu, gofynion cyrff proffesiynol neu unrhyw ofynion eraill.

## Casglu credydau

34. Mae'r myfyrwyr yn casglu credydau tuag at ddyfarnu'r Diploma. Yn gyffredinol, maen nhw'n gwneud hyn drwy gyflawni unedau o werth credyd penodol (3, 6 neu 9 credyd) trwy'r broses asesu ar gwrs Mynediad i AU, ond gallant wneud hyn hefyd drwy'r prosesau o drosglwyddo credydau a thrwy gydnabod dysgu blaenorol.

### Credydau ac unedau

#### Diffiniadau

Dyfernir '**credyd**' i fyfyriwr i gydnabod cyflawniad deilliannau dysgu'r uned y sicrheir eu safon.

35. Dyma'r egwyddorion sy'n berthnasol i'r fframwaith credydau Mynediad i AU:

35.1. dyfernir credydau dim ond lle mae holl ddeilliannau dysgu'r uned wedi eu cyflawni

35.2. os bydd y myfyriwr wedi cyflawni rhai, ond nid pob un, o ddeilliannau dysgu'r uned, ni cheir dyfarnu cyfran o'r credydau i'r myfyriwr sydd wedi eu pennu ar gyfer cyflawni'r uned gyfan yn llwyddiannus.

35.3. ni cheir dyfarnu hanner credyd

35.4. mae gwerth credyd uned yn nodwedd gyson mewn uned, p'un a yw'n raddedig ai peidio.

36. Mae gwerth credyd yr uned yn dangos faint o gredydau y gellir cael eu dyfarnu i fyfyriwr sydd wedi cyflawni holl ddeilliannau dysgu'r uned honno'n llwyddiannus. Pennir gwerth credyd pob uned gan yr Asiantaeth DMiAU yn rhan o'u prosesau dilysu, ar sail barn broffesiynol. Ffurfir y beirniadaethau hyn ar sail 'oriau tybiannol o ddysgu', lle mae un credyd yn cynrychioli'r cyflawniadau dysgu hynny y gellir eu dangos mewn 10 awr dybiannol o ddysgu. Felly, mae'r syniad o 'oriau tybiannol o ddysgu' yn cymryd i ystyriaeth yr holl ddysgu a allai fod yn berthnasol i gyflawni'r deilliannau dysgu, gan gynnwys astudio cyfeiriedig ac astudio'n breifat, gwaith ymarferol a phrosiect, aseiniadau ac amser asesu.

37. Unwaith yr aseinir gwerth credyd i'r uned, mae'n parhau'n gyson, waeth faint o amser y gallai ei gymryd i fyfyriwr unigol gyflawni'r deilliannau dysgu, a waeth faint yw'r amser addysgu sy'n ofynnol i gefnogi cyflawniad y deilliannau dysgu.

38. Mae gan bob uned werth o 3, 6 neu 9 credyd. Ni cheir llunio unedau o unrhyw faint arall.

### Dyfarnu credyd a graddio

39. Bydd credyd yn cael ei ddyfarnu ar gyfer cyflawni uned raddedig o ganlyniad i gyflawni deilliannau dysgu'r uned (hynny yw, wrth gyflawni safon a ddynodir yn lefel 'pasio' o fewn y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU). Ni cheir gofyn i fyfyrwyr gyflawni safon sy'n uwch na lefel

'pasio' er mwyn ennill credyd. Ni cheir dyfarnu unrhyw gredyd ychwanegol i adlewyrchu unrhyw safon a gyflawnir gan y myfyriwr sy'n uwch na lefel 'pasio'.

40. Ni all graddio unedau unigol ond ddigwydd unwaith y bydd y myfyriwr wedi cwblhau pob un o'r aseiniadau'n llwyddiannus sy'n gysylltiedig â'r uned honno ac, o ganlyniad, ystyrir bod y myfyriwr wedi pasio'r uned drwy gyflawni'r deilliannau dysgu a bodloni'r meini prawf asesu a'i fod yn gymwys i dderbyn credyd.

### Credyd a lefel

41. Mae'r Diploma Mynediad i AU yn gymhwyster lefel 3. At ddibenion y fanyleb hon, y prif bwynt cyfeirio yw'r diffiniad cyfredol o nodweddion cyflawniad ar lefel 3 sydd wedi ei nodi yn Adran E Amodau Cydnabod Cyffredinol Ofqual[1] (gofynion lefel sy'n cynnwys disgrifyddion lefel).

42. Dyfernir y Diploma Mynediad i AU ar sail cyflawniad a allai gynnwys rhai credydau ar lefel 2, yn ogystal â chredydau ar lefel 3. Mae lefel yr uned yn pennu'r lefel y dyfernir credyd arni (gwelwch baragraff 17).

### Casglu credydau

43. Mae'r myfyrwyr yn casglu credydau tuag at ddyfarnu Diploma penodol. Os na fydd y myfyriwr wedi cyflawni'r holl gredydau sy'n ofynnol ar gyfer dyfarnu Diploma penodol, mae prosesau'r Asiantaeth DMiAU a ddefnyddir i ddyfarnu'r credydau a gyflawnwyd yr un fath ag ydynt ar gyfer y Diploma llawn.

44. Rhaid sicrhau nad yw'r strategaeth asesu ar gyfer Diploma penodol yn atal myfyrwyr rhag cyflawni unedau (ac felly ennill credydau) ar sail unigol (h.y. fesul uned).

45. Mae'n rhaid i unrhyw unedau y dyfarnwyd credyd ar eu cyfer fod wedi eu cyflawni yn ystod y pum mlynedd cyn dyfarnu'r Diploma penodol perthnasol. Ar ôl pum mlynedd, nid yw unrhyw gredyd a enillwyd yn gymwys yn awtomatig bellach i gyfri tuag at y Diploma hwnnw. Ond, gallai credyd a ddyfernir ar gyfer un neu fwy o unedau a gyflawnwyd mwy na phum mlynedd cyn dyfarnu'r Diploma penodol perthnasol, gael ei gynnwys yn deg yn y 60 credyd sy'n ofynnol i ennill y Diploma hwnnw os ydyn nhw'n bodloni'r gofynion ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol (gwelwch baragraffau 49 i 55). Weithiau, mewn achosion unigol, nodir gofynion manylach, neu fwy cyfyngedig, am y cyfnod y gellir casglu credydau ynddo; gallai hyn fod yn briodol i Ddiplomâu penodol neu unedau penodol (er enghraifft, i sicrhau bod y dysgu'n dal i fod yn gyfredol mewn meysydd astudio penodol, neu mewn perthynas â chael mynediad i raglenni hyfforddiant proffesiynol penodol). Ystyrir a chadarnheir gofynion penodol ar gyfer achosion unigol drwy brosesau'r Asiantaethau DMiAU ar gyfer dilysu cyrsiau a Diplomâu.

### Trosglwyddo credydau

46. Gallai'r Asiantaethau DMiAU gydnabod credydau a ddyfarnwyd gan Asiantaethau DMiAU eraill, ar yr amod eu bod wedi eu dyfarnu yn unol â thelerau'r fframwaith credydau Mynediad i AU.

47. Mae'r broses o drosglwyddo credydau'n cael ei llywio gan brotocolau priodol a sefydlir gan yr Asiantaethau DMiAU. Mae'r protocolau hyn yn disgrifio'r prosesau y mae'r Asiantaethau DMiAU yn eu defnyddio i gadarnhau natur a maint y credydau a ddyfarnwyd i'r myfyriwr ar y pwynt trosglwyddo o'r Asiantaeth DMiAU wreiddiol, a pherthnasedd y cyflawniad y mae'r credydau hynny'n berthnasol iddo ar gyfer y cwrs Diploma penodol a fydd yn derbyn y myfyriwr. Mae'r Asiantaeth DMiAU sy'n derbyn y myfyriwr yn gyfrifol am ddyfarnu'r cymhwyster terfynol.

---

[1] www.gov.uk/guidance/ofqual-handbook/section-e-design-and-development-of-qualifications

48. Os bydd myfyriwr yn symud o un Diploma penodol i un arall (naill ai'n fewnol neu rhwng Asiantaethau DMiAU), gallai credydau a gyflawnwyd yn barod gael eu trosglwyddo lle mae hyn yn deillio o unedau sy'n dderbyniol yn ôl y rheolau cyfuno ar gyfer y Diploma penodol y mae'r myfyriwr yn trosglwyddo iddo, yn amodol ar y ffaith bod uchafswm o 50% o unedau pob Diploma'n cael eu cyflawni drwy'r dull hwn a/neu drwy gydnabod dysgu blaenorol. Wrth benderfynu i ba raddau y mae'r credydau sydd i gael eu trosglwyddo'n berthnasol, dylai'r Asiantaeth ystyried a yw'r wybodaeth, y sgiliau pwnc-benodol a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd gan y myfyriwr eisoes yn cyflenwi neu'n cyfateb i gynnwys y cwrs Diploma sy'n derbyn y myfyriwr.

### Cydnabod dysgu blaenorol

49. Gall y myfyrwyr dderbyn credyd am, neu gael eu rhyddhau rhag gwneud, nifer cyfyngedig o unedau mewn Diploma penodol drwy gydnabod dysgu blaenorol.

50. Ni cheir dyfarnu mwy na 50% o'r credydau sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw Ddiploma penodol drwy gydnabod dysgu blaenorol (gwelwch hefyd baragraff 48). Mae'r rheolau cyfuno ar gyfer y Diploma hwnnw'n nodi'r uchafswm sy'n berthnasol i bob Diploma penodol (a allai fod yn is na 50% mewn rhai sefyllfaoedd).

51. Yn y fframwaith credydau Mynediad i AU, mae'r cysyniadau a gweithrediad y broses o gydnabod dysgu blaenorol wedi eu diffinio'n gyffredin (fel isod) ac mae'n rhaid eu cymhwyso mewn ffordd gyson.

52. 'Cydnabod dysgu blaenorol' yw'r term generig am brosesau a ddefnyddir i gydnabod dysgu a gyflawnwyd y tu allan i'r ffordd ddysgu ffurfiol a luniwyd i gefnogi myfyrwyr i ennill Diploma penodol. Mae hyn yn cynnwys cydnabod dysgu profiadol a dysgu ardystiedig.

53. 'Achredu dysgu ardystiedig blaenorol' yw enw'r broses a ddefnyddir i gydnabod dysgu wedi'i asesu a'i ardystio'n flaenorol fel dysgu sy'n dangos cyflawniad sy'n gydradd â hwnnw sy'n ofynnol i gyflawni un neu fwy o unedau'r Diploma penodol. Am fod y dysgu blaenorol wedi ei ardystio'n barod, ni ddyfernir unrhyw gredyd, ond mae'r myfyrwyr wedi eu heithrio rhag cyflawni credyd hyd werth a ddyfernir yn gydradd gan Asiantaeth DMiAU.

54. 'Achredu dysgu profiadol blaenorol' yw enw'r broses a ddefnyddir i gydnabod dysgu heb ei ardystio a gyflawnwyd mewn ystod o gyd-destunau dysgu fel rhai sy'n dangos dysgu sy'n gydradd â hwnnw sy'n ofynnol i gyflawni un neu fwy o'r unedau sydd eu hangen ar gyfer dyfarnu'r Diploma penodol. Yn rhan o'r broses hon, mae'r myfyriwr yn cyflwyno tystiolaeth o brofiad blaenorol, sydd wedyn yn cael ei asesu yn erbyn deilliannau dysgu'r uned/unedau sy'n cael eu hawlio. Os bydd y dystiolaeth yn bodloni'r gofynion o ran y deilliannau dysgu a'r meini prawf asesu ar gyfer yr uned, cyflawnir yr uned a dyfernir y credyd cysylltiedig i'r myfyriwr. Ni roddir gradd i uned a gyflawnwyd yn y ffordd hon.

55. Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU fod â threfn reoli ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol. Mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU ddefnyddio ei phroses ffurfiol i gydnabod dysgu blaenorol sy'n gofyn i bob myfyriwr unigol gyflwyno cais penodol gyda thystiolaeth.

## Cydnabod cyflawniad myfyrwyr

56. Wedi i'r myfyrwyr fodloni gofynion y rheolau cyfuno ar gyfer y Diploma penodol y maent wedi eu cofrestru ar ei gyfer, dylai cyflawniad y myfyrwyr gael ei gydnabod drwy ddyfarnu credyd (fel y mae wedi ei nodi ar y trawsgrifiad o gyflawniad) a thrwy ddyfarnu'r cymhwyster (fel y mae wedi ei nodi ar dystysgrif).

57. Felly, bydd dyfarniad y Diploma'n dangos bod y myfyriwr wedi llwyddo i gyflawni'r gofynion generig ar gyfer ennill y Diploma, yn ogystal â gofynion arbennig y Diploma penodol.

### Dyfarnu'r Diploma

58. Dyfernir Diplomâu Mynediad i AU gan Asiantaethau DMiAU, yn eu rôl fel cyrff dyfarnu unigol. Mae modd i'r Asiantaethau DMiAU ddefnyddio eu cynllun eu hunain ar gyfer y Diplomâu Mynediad i AU y maent yn eu cyhoeddi ac mae'n rhaid iddyn nhw sicrhau bod pob tystysgrif yn cynnwys:

58.1. y nod adnabod Mynediad i AU, a ddefnyddir yn unol â manylebau technegol y ddogfen reoleiddiol sy'n nodi'r gofynion ar gyfer defnyddio'r nod cydymffurfiad a'r nodau masnach Mynediad i AU

58.2. teitl penodol y Diploma, yn y fformat safonol ar gyfer teitlau Diplomâu Mynediad i AU, fel y rhagnodir ym mharagraffau 6 i 10 y ddogfen hon, a ni cheir rhoi unrhyw deitl arall

58.3. enw a logo'r Asiantaeth DMiAU

58.4. llofnod y cadeirydd a/neu'r prif swyddog gweithredol

58.5. y rhif cyhoeddi unigryw.

59. Ni chaiff tystysgrifau Diploma Mynediad i AU gynnwys unrhyw logos, llofnodion neu enwau cyrsiau eraill heblaw'r rheiny sydd wedi eu nodi ym mharagraff 9. Gall yr Asiantaethau DMiAU hynny sy'n cynnig darpariaeth Mynediad i AU a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru, ac a ddarperir gan ddarparwyr yng Nghymru, ddangos logo Cymwysterau Cymru ar dystysgrifau ar gyfer y ddarpariaeth hon yn unig.

60. Dim ond ar un ddogfen yn unig, sef y Diploma Mynediad i AU, y ceir defnyddio nod adnabod Mynediad i AU. Ni cheir ei ddefnyddio ar drawsgrifiadau credyd neu unrhyw ddogfennau ychwanegol y gellid eu cyhoeddi ar yr un pryd â'r Diploma.

## Datblygu Diplomâu Mynediad i AU

61. Datblygir a dyfernir Diplomâu Mynediad i AU gan Asiantaethau DMiAU a drwyddedir gan QAA. Wrth ddatblygu Diplomâu, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sicrhau eu bod yn cynnwys cyngor gan arbenigwyr pwnc addysg uwch.

62. Yn benodol, dylai'r cyngor hwn ganolbwyntio ar briodoldeb y Diplomâu arfaethedig, er mwyn cadarnhau bod Diplomâu newydd yn paratoi'r myfyrwyr yn briodol ar gyfer astudio ym maes addysg uwch o fewn y maes/meysydd astudio neu'r llwybr(au) cynnydd sydd wedi eu nodi, fel y dangosir yn y rheolau cyfuno.

# Atodiad A: Y gofynion o ran ystyried y rheolau cyfuno wrth lunio Diploma penodol

| Adran/eitem | Y wybodaeth ofynnol |
|---|---|
| a) Teitl y Diploma | Rhaid rhoi'r teitl yn y fformat rhagnodedig ar gyfer Diplomâu penodol ('Teitlau Diplomâu penodol') |
| b) Yr unedau a gymeradwyir i'w defnyddio yn rhan o'r Diploma hwn | Dylid cynnwys neu atodi rhestr o'r unedau a gymeradwywyd i'w defnyddio yn y Diploma penodol. Ar gyfer pob un o'r unedau hyn, rhaid i'r rhestr hon nodi:<br>• a yw'r uned yn ymwneud â chyd-destun pwnc academaidd ('Unedau a ddynodir yn rhai sydd â chynnwys pwnc academaidd')<br>• a yw'r uned yn raddedig neu'n anraddedig ('Unedau graddedig neu anraddedig')<br>• gwerth credyd yr uned (o 3, 6 neu 9 credyd) ('Credydau ac unedau')<br>• a yw'r uned yn orfodol neu'n opsiynol ('Rheolau cyfuno')<br>• lefel yr uned (2 neu 3). |
| c) Crynodeb o'r nifer o gredydau ar lefelau penodol sy'n cynnwys y Diploma penodol ('Manyleb y cyflawniad sy'n ofynnol i ennill y Diploma Mynediad i AU') | Mae pob Diploma'n cynnwys 60 credyd.<br>• o'r cyfanswm o 60 credyd, mae'n rhaid cyflawni 45 credyd o unedau graddedig ar lefel 3 sy'n ymwneud â chynnwys pwnc academaidd, ac mae'n rhaid cyflawni'r 15 credyd sy'n weddill o unedau anraddedig ar lefel 2 neu 3<br>• mae'n rhaid i bob myfyriwr gofrestru ar gyfer o leiaf un uned o 6 neu 9 credyd yn rhan o'u rhaglen astudio; gallai hon fod yn uned raddedig neu anraddedig<br>• gall myfyrwyr gael eu cofrestru ar gyfer uchafswm o 30 credyd a all gynnwys unedau o 6 neu 9 credyd<br>• bydd unedau graddedig neu anraddedig o 6 neu 9 credyd yn cyfri tuag at yr uchafswm hwn. |
| d) Gwerth credyd a lefel yr unedau gorfodol | Yn yr adran hon, rhaid nodi cyfanswm gwerth credyd yr unedau ar lefel 2 (os oes rhai) ac ar lefel 3 (os oes rhai) y mae'n rhaid eu cyflawni o unedau a ddynodir yn rhai gorfodol. |
| e) Gwerth credyd a lefel yr unedau opsiynol | Yn yr adran hon, rhaid nodi cyfanswm gwerth credyd yr unedau ar lefel 2 (os oes rhai) ac ar lefel 3 (os oes rhai) y mae'n rhaid eu cyflawni o unedau a ddynodir yn rhai opsiynol. |
| f) Teitlau'r unedau gorfodol | Rhaid nodi'r unedau sy'n orfodol ar y rhestr o'r unedau sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer y Diploma hwn, a rhaid cynnwys neu atodi'r rhestr hon (gwelwch eitem b uchod). |

| | |
|---|---|
| g) Teitlau'r unedau opsiynol | Rhaid nodi'r unedau sy'n opsiynol ar y rhestr o'r unedau sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer y Diploma hwn, a rhaid cynnwys neu atodi'r rhestr hon (gwelwch eitem b uchod). |
| h) Y gwerth credyd a lefel y credydau a ganiateir drwy drosglwyddo credydau a dyfarnu credydau drwy gydnabod dysgu blaenorol | Yn yr adran hon, rhaid nodi'r gofynion o ran trosglwyddo credydau ('Trosglwyddo credydau') a threfniadau eraill sy'n galluogi i'r myfyrwyr ddangos eu bod wedi cyflawni dysgu'n flaenorol ('Cydnabod dysgu blaenorol').<br><br>Er enghraifft, gellir trosglwyddo uchafswm o X credyd sy'n deillio o unedau Mynediad i AU a ddyfernir ar lefel 2; gellir eithrio uchafswm o Y credyd ar lefel 3 sy'n deillio o'r unedau opsiynol ar sail cyflawniad perthnasol a gafodd ei ardystio'n flaenorol; gellir dyfarnu uchafswm o X credyd ar lefel Y drwy achredu dysgu profiadol blaenorol).<br><br>Ar y cyfan, ni chaiff y gyfran gyfan o'r credydau a ddyfernir neu a eithrir, naill ai drwy drosglwyddo credydau a/neu gydnabod dysgu blaenorol, fod yn uwch na 30 credyd (h.y. 50% o'r credydau sy'n ofynnol i ennill y Diploma). |
| Gofynion eraill | Mae materion rheoliadol eraill y gellir eu cynnwys yma, er enghraifft rhai sy'n ymwneud â mathau penodol o gyfyngiadau ar amser. Er enghraifft, mae'n rhaid i o leiaf X credyd ar lefel 3 ym mhwnc Y fod wedi eu cyflawni yn y tair blynedd cyn i'r Diploma penodol gael ei ddyfarnu.<br><br>Yn y fan yma, dylid hefyd gynnwys unrhyw gyfuniad o unedau sydd wedi eu heithrio. |

<table>
<tr><td colspan="3"><h2>Rheoli fersiynau</h2></td></tr>
<tr><td colspan="3">Teitl y ddogfen<br>Manyleb y Diploma Mynediad i AddysgUwch<br>Dogfen Reoleiddiol: Y gofynion i Asiantaethau Dilysu Mynediad i AU</td></tr>
<tr><td colspan="3">Disgrifiad o'r ddogfen<br>Y ddogfen hon yw un o ddogfennau rheoleiddiol y Cynllun Cydnabod sy'n nodi manylebau technegol y Diploma Mynediad i AU (y 'Diploma') a'r gofynion sylfaenol o ran cyflawniad y myfyrwyr.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Perchennog y ddogfen</td><td>Rheolwr y Diploma Mynediad i AU</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cymeradwywyd gan Fwrdd QAA</td><td>Dyddiad: Tachwedd 2019</td></tr>
<tr><td colspan="2">Lleoliad cyhoeddi</td><td>https://www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au/adnoddau-yn-ymwneud--acirc--mynediad-i-au/manyleb-diploma-mynediad-i-au</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cysylltiadau â dogfennau rheoleiddiol eraill<br>y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch<br>yr Amodau Mynediad i AU<br>y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU -Adrannau B i E<br>Manyleb y Diploma Mynediad i AU<br>I weld manylion, ewch i: www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y dyddiad adolygu nesaf</td><td>Dyddiad: Gorffennaf 2029</td></tr>
<tr><td>Fersiwn</td><td>Y dyddiad cyhoeddi</td><td>Y wybodaeth wedi ei diweddaru</td></tr>
<tr><td>1.0</td><td>Gorffennaf 2023</td><td>Yr argraffiad cyhoeddedig cyntaf</td></tr>
<tr><td>2.0</td><td>Gorffennaf 2025</td><td>Diweddarwyd y cyfeiriadau at y Cytundeb Trwyddedu i'r Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU<br>Adolygwyd y gair Saesneg am 'atodiad' i sicrhau aliniad ag arddullfewnol benodol gyfredol QAA</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn gyntaf ym mis Gorffennaf 2023, a chafodd ei diweddaru ym mis Gorffennaf 2025 i gynnwys cyflwyniad yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch.<br><br>Disodlodd manyleb 2023 Fanyleb y Diploma Mynediad i Addysg Uwch, Ionawr 2020. Mae'n berthnasol i bob myfyriwr newydd sy'n cofrestru ar Ddiplomâu o 1 Awst 2024. Diweddarwyd y Cynllun Graddio Mynediad i AU hefyd i fod yn berthnasol i bob myfyriwr newydd sy'n cofrestru ar Ddiplomâu o 1 Awst 2024. Mewn perthynas â'r myfyrwyr hynny oedd wedi eu cofrestru cyn 1 Awst 2024, gwelwch Fanyleb y Diploma Mynediad i Addysg Uwch(Ionawr 2020) a'r Cynllun Graddio(Medi 2020) sydd ar gael ar www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au.</td></tr>
</table>

Cyhoeddwyd - Gorffennaf 2023
Wedi'i ddiwygio - Gorffennaf 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)